***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 21. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 5

# TRAFODIADAU EIDDO PRESWYL CYFRADDAU UWCH

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Atod. 5 applied (ynghyd â modifications) (1.4.2018) by Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/126), rhlau. 1(2), **12**

## RHAN 4

## PRYNWR NAD YW'N UNIGOLYN

### *Trafodiad sy'n ymwneud ag anheddau lluosog*

21 (1) Mae trafodiad trethadwy yn drafodiad eiddo preswyl cyfraddau uwch—

(a) os nad yw'r prynwr yn unigolyn,

(b) os yw prif destun y trafodiad ar ffurf prif fuddiant mewn dwy annedd neu ragor ("yr anheddau a brynir"), ac

(c) os yw o leiaf un o'r anheddau a brynir yn annedd y mae is-baragraff (2) yn gymwys iddi.

(2) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i annedd a brynir os yw swm y gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer y trafodiad sydd i'w briodoli ar sail deg a rhesymol i'r annedd a brynir yn £40,000 neu ragor.

(3) Ond nid yw is-baragraff (2) yn gymwys i annedd a brynir—

(a) os yw'r annedd a brynir yn ddarostyngedig i les,

(b) os yw prif destun y trafodiad yn rifersiwn ar y les honno, ac

(c) os yw'r les yn bodloni'r amodau a nodir yn is-baragraff (4),

ar ddiwedd y dydd ar y dyddiad y mae'r trafodiad yn cael effaith.

(4) Yr amodau yw—

(a) nad yw'r les yn cael ei dal gan berson sy'n gysylltiedig â'r prynwr, a

(b) bod gan y les gyfnod o fwy na 21 o flynyddoedd yn weddill.

(5) Nid yw trafodiad o fewn adran 72(9) yn drafodiad eiddo preswyl cyfraddau uwch ac eithrio pan fo Atodlen 13 yn gymwys (gweler yn benodol baragraff 6(6) o'r Atodlen honno).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 5 para. 21 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I2** Atod. 5 para. 21 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 21.